

CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod arbennig o bell a gynhaliwyd 28 Medi, 2021.

Mae'r Cyngor Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Rhiannon Birch (Dirprwy Faer yn y Gadair); Cynghorwyr Julie Aviet, Vincent Bailey, Jonathan Bird, Bronwen Brooks, Lis Burnett, George Carroll, Janice Charles, Millie Collins, Geoff Cox, Robert Crowley, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Stewart Edwards, Ben Gray, Owen Griffiths, Stephen Griffiths, Anthony Hampton, Sally Hanks, Nic Hodges, Hunter Jarvie, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Gordon Kemp, Peter King, Kevin Mahoney, Kathryn McCaffer, Anne Moore, Neil Moore, Michael Morgan, Rachel Nugent-Finn, Andrew Parker, Bob Penrose, Sandra Perkes, Andrew Robertson, Leighton Rowlands, Ruba Sivagnanam, John Thomas, Neil Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams, Mark Wilson a Marguerita Wright.

405 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

406 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr Jayne Norman (Maer), Christine Cave ac Andrew R.T. Davies.

407 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

408 ADOLYGIAD O STRWYTHUR Y TÎM ARWEINYDDIAETH STRATEGOL (CYF) –

Dechreuodd yr Arweinydd drwy ddweud bod yr adolygiad wedi'i gynnal i sicrhau bod y Cyngor yn y sefyllfa orau i ymateb i heriau yn y dyfodol. Ar ôl ystyried yr adroddiadau i'r Cabinet ar 12 Mai ac i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 19 Mai 2021 a thrafodaethau gydag Arweinwyr Grwpiau mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Adnoddau Dynol, roedd wedi comisiynu ymgynghorydd i gynnal yr adolygiad.

Cafodd yr adroddiad gerbron y Cyngor ei ystyried gan y Cabinet ar 13 Medi 2021 a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 22 Medi 2021. Roedd yr adroddiad yn nodi canfyddiadau'r dadansoddiad diweddar o strwythur uwch reoli'r Cyngor, mewn ymateb i benderfyniad y Cabinet ar 12 Mai, 2021 i gomisiynu adolygiad ymgynghori allanol o'r strwythur. Roedd yr adroddiad yn cynnig y strwythur sefydliadol lefel uchel y byddai ei angen i gyflawni'r agenda uchelgeisiol a nodir yng Nghynllun Corfforaethol 2020-25, dull bras o ran sut y byddai'r sefydliad yn gweithio yn y dyfodol a'r newidiadau arfaethedig i'w gwneud ar unwaith i'r strwythur.

Dywedodd yr Arweinydd fod y newidiadau yn ei farn ef yn angenrheidiol er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Awdurdod Lleol i'r safonau uchaf a sicrhau mai dyma'r awdurdod sy'n perfformio orau yng Nghymru.

Cytunwyd yn briodol i gais gan yr Arweinydd i'r Rheolau Sefydlog gael eu hepgor (a eiliwyd gan y Cyngorydd Lis Burnett) i alluogi'r ymgynghorydd (Steve James) a benodwyd gan y Cyngor gynnal yr adolygiad, siarad gerbron y Cyngor a rhoi cyflwyniad iddo.

Dechreuodd yr ymgynghorydd drwy roi trosolwg yn cwmpasu nifer o agweddau ar yr adolygiad a oedd yn cynnwys yr hyn sydd wedi sbarduno'r adolygiad, heriau strategol sy'n wynebu'r Cyngor oherwydd nifer o ffactorau, pwysau/gofynion a'r cynigion ar gyfer newidiadau strwythurol o ran uwch arweinwyr y Cyngor i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Roedd yr adroddiad ei hun yn cynnig y newidiadau strwythurol sydd angen eu gwneud ar unwaith i:

- gynyddu niferoedd a gallu staff ar lefel uwch er mwyn sbarduno'r newidiadau trawsnewidiol i wasanaethau y nodir y mae eu hangen yn y Cynllun Corfforaethol;
- sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth weithredol briodol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o'r agenda cenedlaethol a rhanbarthol sy'n datblygu; a
- datblygu cyfeiriad arweinyddiaeth a fyddai'n sail i strwythur sefydliad ar gyfer 2022/23 a'r tu hwnt ac a fyddai'n ymgorffori'r lefelau staffio a'r gallu sydd eu hangen i weithredu'r model gweithredu newydd yn llawn a darparu gwasanaethau fel y rhagwelir yn y Cynllun Corfforaethol.

Yn dilyn y cyflwyniad, manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i Mr James am ei waith mewn perthynas â'r adolygiad sy'n rhoi strwythur i'r Cyngor wrth symud ymlaen. Tynnodd yr Arweinydd sylw'r Aelodau at brosesau ailstrwythuro Rheolwyr a oedd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd blaenorol gan dynnu sylw at y ffaith bod y gofynion o ran adrodd i'r Rheolwr Gyfarwyddwr ar Lefel Uwch yn ormod ar hyn o bryd. Roedd y Cyngor eisoes wedi cytuno bod ei gynllun cyflawni yn Strategol ei natur ac felly i fodloni'r gofynion roedd angen llunio'r prosesau arwain Strategol.

Yna, cynigiodd yr Arweinydd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Eiliwyd y cynnig gan y Cyngorydd Burnett.

Diolchodd y Cyngorydd Carroll i'r Arweinydd a'r ymgynghorydd am y sesiynau briffio a roddwyd i'r Arweinwyr Grwpiau drwy gydol y broses ac wrth gyfeirio at y

cynigion dywedodd ei fod yn hapus i gefnogi newid teitl y Rheolwr Gyfarwyddwr i'r teitl Prif Weithredwr. Fodd bynnag, o ran creu'r ddwy swydd cyfarwyddwr newydd (Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a Chyfarwyddwr Lle), roedd o'r farn, gan fod yr Awdurdod yn wynebu pwysau costau, nad oedd yn gallu cefnogi creu'r ddwy swydd oherwydd y costau ychwanegol na allai ef na'i grŵp eu cyfiawnhau i drethdalwyr Bro Morgannwg.

O ganlyniad, cynigiodd y Cynghorydd Carroll y diwygiad canlynol, a eiliwyd gan y Cynghorydd Vince Bailey,

Dileu pwyntiau (c) Creu swydd Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a phwynt (d) Creu swydd Cyfarwyddwr Lle o benderfyniad 2 y Cabinet, cofnod C660 y Cabinet.

Mynegodd y Cynghorydd Dr Ian Johnson ei siom gyda'r diwygiad arfaethedig ac atgoffodd yr Aelodau fod y Cyngor wedi newid gweinyddiaeth yn aml dros y blynyddoedd gan ddweud bod 42 aelod o'r Cyngor presennol wedi cymryd rhan mewn gweinyddiaethau rywbryd ers 2017. Trosiant blynyddol y Cyngor oedd 400 miliwn, roedd ganddo 5,000 o aelodau o staff ac felly roedd capasiti'r Uwch Reolwyr yn hynod bwysig o ran darparu'r gwasanaethau cywir ar gyfer pobl Bro Morgannwg. Roedd yn bwysig cytuno sut y byddai Tîm Rheoli'r Cyngor yn cael ei drefnu. Yn ei farn ef, pum swydd Cyfarwyddwr oedd y swm cywir ar gyfer Cyngor o'i natur a'i faint o ran Uwch Arweinwyr ac roedd angen manteisio ar gyfleoedd allanol. Roedd rôl y Cyfarwyddwr Lle yn ymwneud ag uchelgais ac yn rhoi cyfleoedd i dderbyn arian ychwanegol a'r capasiti i symud ymlaen. Roedd y gronfa codi'r gwastad hefyd yn bwysig a byddai'r capasiti a gynigiwyd yn yr adroddiad yn galluogi hyn. Gofynnodd i'r Grŵp Ceidwadol, pe baent am ddileu'r swyddi, a allent ddweud a fyddent yn cymryd rhan yn y broses recriwtio ar gyfer y swyddi pe baent yn cael eu cymeradwyo, a fyddent yn dileu'r swyddi pe baent yn llwyddiannus yn yr etholiadau ym mis Mai 2022 a/neu eu cadw, ac a fyddent yn cymryd y clod am y swyddi ac am yr hyn a gyflawnwyd ganddynt pe baent yn gweinyddu yn y dyfodol.

Nododd y Cynghorydd Kemp nad oedd wedi darllen yr adroddiad, ond gofynnodd am y trefniadau comisiynu ar gyfer yr adroddiad, cefndir yr ymgynghorydd ac a oedd maint y Cyngor yn cyfiawnhau Prif Weithredwr annibynnol heb unrhyw adrannau oddi tano. O ystyried llymder, gofynnodd y Cynghorydd Kemp a fyddai'r costau sy'n gysylltiedig â'r swyddi yn cael effaith ar y ffordd y darperir gwasanaethau gan ofyn am eglurder ynghylch yr hyn a oedd yn mynd i ddigwydd gyda strwythurau staff islaw lefel y Cyfarwyddwyr ac a fyddai'r cynigion yn sicrhau gwell gwasanaethau i'r cyhoedd.

Wrth fynd i'r afael â sylwadau'r Cynghorydd Kemp, tynnodd yr Arweinydd sylw at y broses ar gyfer penodi'r ymgynghorydd, fel y nodir yn yr adroddiad, gan ddweud y gofynnwyd i SOLACE awgrymu ymgynghorwyr y gallai'r Cyngor eu hystyried i gynnal adolygiad. Argymhellwyd pedwar ymgynghorydd gwahanol. Cafodd y rhain eu hasesu'n briodol a rhoddwyd dau ohonynt ar restr fer ar gyfer cyfweiliad. Nid oedd Mr James yn gysylltiedig â SOLACE, roedd ganddo gwmni cyfyngedig preifat ac roedd wedi gweithio gyda nifer o Gynghorau eraill, wedi'i gyflogi'n flaenorol gan Deloitte. Roedd yr adroddiad ei hun yn nodi mai adolygiad rheoli strategol oedd e ac mai'r Cyfarwyddwr priodol a fyddai'n ystyried ac yn penderfynu'r hyn yr oedd

angen iddo ddigwydd ar ôl penodi i swyddi islaw lefel y Cyfarwyddwr mewn Cyfarwyddiaethau.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Dr Johnson (Arweinydd Grŵp Plaid Cymru) am ei sylwadau y dywedodd eu bod yn gwbl gywir yn ei farn ef. Roedd angen i'r Cyngor fod yn Strategol wrth edrych i'r dyfodol ac yn strategol wrth feddwl.

Ategodd Mr James sylwadau'r Arweinwyr Grwpiau uchod gan ddweud bod nifer o Gynghorau'n ceisio rheoli heriau strategol fel y nodir yn yr adroddiad. Byddai'r uchelgeisiau a nodir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor yn gofyn am allu arwain strategol a byddai heriau pe bae'r strwythur arwain yn cael ei leihau. Roedd y twf a'r cyfleoedd posibl y gallai rôl Cyfarwyddwr Lle eu cynnig yn allweddol.

Dywedodd y Cynghorydd Bailey na allai gefnogi'r cynigion gan nad oedd creu'r ddau gyfarwyddwr, fel y nodir yn yr adroddiad, yn briodol yn ei farn ef. Roedd ei wrthwynebiad i'r cynigion yn ymwneud â gwneud y peth iawn gydag arian trethdalwyr a chydabu fod staff yn gwneud gwaith rhagorol gyda'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd. Ni allai gofio cael gwybod nad oedd y strwythur presennol yn gallu cyflawni'r uchelgeisiau a nodir yng Nghynllun Corfforaethol 2020/25 ac roedd o'r farn ei bod yn amhriodol penodi dwy swydd cyfarwyddwr newydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at y pwysau allanol sy'n wynebu'r Cyngor, heriau Brexit, y Newid yn yr Hinsawdd a phandemig COVID-19 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fod yn addas at y diben. Roedd angen i swyddogion y Cyngor fod yn weledigaethol, cael eu hailfywiogi, canolbwyntio ar strategaeth ac edrych ar y cyfeiriad i'r dyfodol.

Cymeradwyodd y Cynghorydd Mahoney rai o'r sylwadau a wnaed gan yr aelodau Ceidwadol. Cyfeiriodd hefyd at y Rheolwr Gyfarwyddwr nad oedd wedi dweud wrth y Cyngor nad oedd yn hapus â'r strwythur yr oedd wedi'i etifeddu yn 2015 ac y byddai'n well gan bobl Bro Morgannwg, yn ei farn ef, wario'r arian ar wasanaethau. I gloi, dywedodd y Cynghorydd Mahoney nad oedd angen newid os oedd y Cyngor yn gwneud yn dda ar hyn o bryd.

Roedd y Cynghorydd Robertson o'r farn fod amseriad yr adolygiad yn amhriodol, roedd swyddogion wedi gwneud gwaith rhyfeddol o ganlyniad i COVID ac roedd trigolion wedi cael amser anodd dros y ddwy flynedd flaenorol ac yn ei farn ef ni fyddai'r cyhoedd yn croesawu'r cynigion.

Gofynnodd y Cynghorydd Rowlands i'r Arweinydd pryd y byddai'r ddwy swydd yn dechrau gan y gallai amseriad y penodiadau effeithio ar oblygiadau ariannol £280,000, pe bai'r penodiadau'n cael eu gwneud yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol bresennol. Amcangyfrifwyd y byddai hyn yn ychwanegu £70,000 at gostau cyflog. Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd y byddai'n ddibynnol ar y broses recriwtio, ond gobeithio y byddai'r sawl a benodir wedi dechrau ar eu swyddi erbyn mis Mai 2022.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gray at nifer y cyfleoedd yr oedd yn rhaid i'r Aelodau fod yn rhan ohonynt wrth ystyried yr adroddiadau a'r ffaith bod yr adroddiad hefyd yn

ddechrau ymgynghoriad â staff. Gofynnodd am bleidlais wedi'i chofnodi o ran pryd y byddai'r cynnig yn cael ei roi ar waith a chytunwyd ar hyn.

Dywedodd y Cynghorydd Perkes ei bod hefyd wedi gweithio i'r Cyngor nifer o flynyddoedd ynghynt a'i bod wedi gweld sut roedd mesurau llymder wedi effeithio ar staff. Roedd angen cefnogi staff a Chyfarwyddwyr i wneud y gwaith Strategol yr oedd angen ei gyflawni.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Moore, a oedd wedi'i syfrdanu gan rai o'r sylwadau a wnaed yn ystod y ddadl, at effaith pandemig COVID ar staff. Er bod rheolwyr y Cyngor yn eithriadol yn ei farn ef, roedd angen strategaeth ar waith i symud y Cyngor yn ei flaen. Atgoffodd y Cyngor hefyd nad oedd ychwaith yn gwario hyd at ei lefel Asesiad Gwario Safonol. Wrth gyfeirio at gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU dywedodd mai rhyfel bidio oedd hwn ac, yn ei farn ef, roedd yn ceisio osgoi prosesau democrataidd yng Nghymru.

Roedd y Cynghorydd Carroll mewn ymateb o'r farn y byddai strwythur rheoli presennol y Fro yn gallu gwneud ceisiadau llwyddiannus i'r Gronfa Codi'r Gwastad. Fodd bynnag, gofynnodd o ble y byddai'r arian yn dod i dalu am gyflogau'r ddwy swydd gan ddweud nad oedd ei sylwadau'n adlewyrchu ar y tîm rheoli presennol y cytunodd ei fod wedi gweithio'n eithriadol o galed ac yn dda gyda'i gilydd. Fodd bynnag, mewn ymateb i sylwadau'r Cynghorydd Johnson o ran p'un ai a fyddai'r grŵp Ceidwadol yn cymryd rhan mewn unrhyw broses benodi, dywedodd y byddai'r grŵp yn gweithio o fewn penderfyniadau a wnaed.

Yna, cynhaliwyd Pleidlais a Gofnodwyd ar y Diwygiad canlynol:

Dileu pwyntiau (c) Creu swydd Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a phwynt (d) Creu swydd Cyfarwyddwr Lle o benderfyniad (2) y Cabinet, cofnod C660 y Cabinet.

Aelodau	Canys	Yn Erbyn	Ymatal
Julie Aviet		√	
Rhiannon Birch		√	
Vincent Bailey	√		
Jonathan Bird		√	
Bronwen Brooks		√	
Lis Burnett		√	
George Carroll	√		
Janice Charles	√		
Millie Collins		√	

Geoff Cox		√	
Robert Crowley	√		
Pamela Drake		√	
Vince Driscoll	√		
Stewart Edwards	√		
Ben Gray		√	
Owen Griffiths	√		
Stephen Griffiths	√		
Anthony Hampton	√		
Sally Hanks		√	
Nic Hodges		√	
Hunter Jarvie		√	
Gwyn John		√	
Ian Johnson		√	
Gordon Kemp	√		
Peter King		√	
Kevin Mahoney	√		
Kathryn McCaffer		√	
Anne Moore		√	
Neil Moore		√	
Michael Morgan		√	
Rachel Nugent-Finn	√		
Andrew Parker		√	
Bob Penrose	√		
Sandra Perkes		√	
Andrew Robertson	√		

Leighton Rowlands	√		
Ruba Sivagnanam		√	
John Thomas		√	
Neil Thomas		√	
Steffan William		√	
Margaret Wilkinson		√	
Edward Williams		√	
Mark Wilson		√	
Marguerita Wright	√		
TOTAL	16	28	

Gwrthodwyd y diwygiad.

Dywedodd y Cyngorydd Penrose, gan gyfeirio at Gynnig yr Arweinwyr, fel uchod, er nad oedd yn gwrthwynebu'r argymhellion, ei fod yn gwrthwynebu'r cynnydd yn y gyllideb cyflogau oni bai y gellid cynnwys y swyddi yn yr amlen gyflog bresennol. Dywedodd hefyd y dylai unrhyw newidiadau i'r Strwythur Uwch Arwain gael eu gwneud gan y weinyddiaeth a fydd yn gyfrifol am hynny yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022.

Dywedodd y Cyngorydd Thomas, gan gytuno â sylwadau'r Cyngorydd Johnsons, ei fod ef, fel Arweinydd blaenorol y Cyngor, yn deall y pwysau ar yr Uwch Dîm Rheoli. Roedd angen i'r Cyngor esblygu a symud ymlaen i'w alluogi i barhau i fod yn un o'r awdurdodau gorau, os nad yr awdurdod sy'n perfformio orau yng Nghymru.

Dywedodd y Cyngorydd Bailey ei bod yn braf gweld y sylwadau brwd yn y cyfarfod, ond gan ailadrodd bod hyn ymwneud â gwneud yr hyn a oedd yn iawn i bobl y Fro a gofynnodd am enghreifftiau o sut y byddai'r penodiadau'n talu amdanynt eu hunain.

Dywedodd y Cyngorydd Mahoney nad oedd ganddo unrhyw broblemau o ran creu mwy o swyddi yn y Cyngor cyn belled â'u bod yn cael eu creu o fewn y gyflogres bresennol.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Burnett at gymryd rhan yn y ddadl o sefyllfa gref gan ddweud mai Cyngor Bro Morgannwg oedd yr Awdurdod sy'n perfformio orau yng Nghymru ers 2013 a hyd yn oed drwy'r Pandemig roedd y Cyngor wedi parhau i ddarparu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes yn ogystal ag ystod eang o gymorth ychwanegol. Roedd llawer o heriau o hyd o flaen y Cyngor ac o flaen y Cymunedau. O ganlyniad i lymder ers 2010 bu'n rhaid i'r Cyngor dorri £59 miliwn o'i gyllideb.

Effeithiodd y pandemig yn wael ar gymunedau a chyda ffyrlo yn dod i ben cyn bo hir, lleihau'r Credyd Cynhwysol, a chynnydd mewn Yswiriant Gwladol, byddai'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan y Cyngor ar gyfer pobl y Fro yn hanfodol i lawer o fywydau. Roedd angen i'r Cyngor fwrw ymlaen â'r agenda adfywio gwledig er gwaethaf effaith Brexit a gwaith anhygoel y Tîm Adfywio Gwledig a'r Grŵp Gweithredu Lleol. Fodd bynnag ochr yn ochr â'r heriau roedd cyfleoedd hefyd. Cyfleoedd i edrych i'r dyfodol a dyna pam fod yr ail rôl, rôl y Cyfarwyddwr Lle, yn bwysig. Canolbwynt y Cynllun Corfforaethol diwethaf oedd 'Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair' ac yn fwy diweddar roedd wedi datblygu'n 'Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Dyfodol Disgleiriach'. Roedd y cynllun yn heriol ac yn uchelgeisiol. Roedd rhestr o bethau yr oedd angen buddsoddi ynddynt ac roedd angen Arweinwyr ar y Cyngor i wneud hynny.

Gan gyfeirio at gyfarfod y Cyngor ar 20 Medi lle'r oedd wedi adrodd bod 82% o'r hyn a gaiff ei wario ar waith adeiladu ac 85% o'r hyn a gaiff ei wario ar y gweithlu yng Nghymru yn ymwneud â rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, 48% o'r cod post, 154 o swyddi llawn amser newydd ac roedd 86 o brentisiaethau a 47 o fentrau cymunedol wedi'u cefnogi ac roedd am i hyn gael ei ailadrodd ar draws holl wariant caffael y Cyngor. Roedd angen i'r Cyngor hefyd adeiladu ysgolion a chartrefi, seilwaith trafndiaeth a'r swyddi i gefnogi ei gymunedau ac roedd angen iddo ymateb i heriau'r Newid yn yr Hinsawdd a chyflawni hyn mewn partneriaeth â'r cymunedau.

Daeth y Cynghorydd Burnett i'r casgliad ei bod yn credu y byddai'r strwythur arfaethedig yn galluogi'r Cyngor i gyflawni dros ei gymunedau a dyna oedd ei rheswm dros eilio a chefnogi'r cynigion yn yr adroddiad.

Nododd y Cynghorydd King fod y gwasanaethau yr oedd yn gyfrifol amdanynt wedi cyflawni cymaint â phosibl mewn cyfnod mor anodd ac yn parhau i gyflawni yn y modd hwnnw. Yr her fwyaf oedd heriau'r gadwyn gyflenwi a dyma fyddai un o'r meysydd y byddai'n cael sylw yn rhan o'r arweiniad strategol.

Dywedodd yr Arweinydd wrth grynhoi fod y pwysau cyn COVID, yn ystod COVID ac ar ôl COVID yn wahanol, a bod angen i'r Cyngor esblygu a symud ymlaen. Dywedodd fod sylwadau'r Aelodau yn y bar sgwrsio ar TEAMS yn dweud bod yr hysbysebion eisoes wedi'u hysgrifennu yn warthus a dywedodd nad oedd hyn yn wir.

Dywedodd yr Arweinydd mai'r nod oedd rhoi strategaeth ar waith i helpu'r Cyngor i symud ymlaen a pharhau i fod yr Awdurdod gorau ac awgrymodd y gallai'r ymgynghorydd ddymuno ymateb i rai o'r sylwadau a wnaed yn ystod y ddadl yn benodol i rôl y Cyfarwyddwr Lle. Ymatebodd Mr James drwy ddweud, er bod y Cyngor mewn sefyllfa gref, y byddai'n anodd gwella a chynnyddu'r materion sylweddol a geir yn y Cynllun Corfforaethol yn fwy o fewn y strwythur uwch arwain presennol. Roedd rôl y Cyfarwyddwr Lle yn ymwneud â thwf a datblygiad, gyda rôl y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol hefyd yn allweddol i drawsnewid y sefydliad yn gyffredinol er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

Yn dilyn y ddadl ac ystyried yr adroddiad:

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor (y Cynghorydd Neil Moore), wedi'i eilio gan y Cynghorydd Lis Burnett, y dylai penderfyniadau'r Cabinet (Cofnod Rhif C660, 13 Medi, 2021) ac fel y nodir isod, gael eu cymeradwyo:

(1) Cymeradwyo'r cynnig i aildrefnu'r strwythur haen gyntaf ac ail haen, gan gynnwys rolau newydd a rhai sydd wedi newid, fel y nodir yn yr adroddiad a'u hargymell yng nghyfarfod arbennig y Cyngor Llawn ddydd Mawrth 28 Medi 2021.

(2) Cymeradwyo dileu a chreu'r swyddi canlynol yn unol â'r manylion a geir yn yr adroddiad ac yn rhan o'r strwythur arfaethedig ac argymell y cynigion hyn i'r Cyngor Llawn:

- (a) Dileu'r swydd Rheolwr Gyfarwyddwr;
- (b) Creu swydd Prif Weithredwr;
- (c) Creu swydd Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol; a
- (ch) Creu swydd Cyfarwyddwr Lle.

(3) Nodi'r broses ymgynghori a'r amserlen weithredu arfaethedig

Yna, cynhaliwyd Pleidlais a Gofnodwyd ar y Cynnig uchod fel a ganlyn:
ENILLWYD y bleidlais.

Aelodau	Canys	Yn Erbyn	Ymatal
Julie Aviet	√		
Rhiannon Birch	√		
Vincent Bailey		√	
Jonathan Bird	√		
Bronwen Brooks	√		
Lis Burnett	√		
George Carroll		√	
Janice Charles		√	
Millie Collins	√		
Geoff Cox	√		
Robert Crowley		√	
Pamela Drake	√		
Vince Driscoll		√	

Stewart Edwards		√	
Ben Gray	√		
Owen Griffiths		√	
Stephen Griffiths		√	
Anthony Hampton		√	
Sally Hanks	√		
Nic Hodges	√		
Hunter Jarvie	√		
Gwyn John	√		
Ian Johnson	√		
Gordon Kemp		√	
Peter King	√		
Kevin Mahoney		√	
Kathryn McCaffer	√		
Anne Moore	√		
Neil Moore	√		
Michael Morgan	√		
Rachel Nugent-Finn		√	
Andrew Parker	√		
Bob Penrose		√	
Sandra Perkes	√		
Andrew Robertson		√	
Leighton Rowlands		√	
Ruba Sivagnanam	√		
John Thomas	√		
Neil Thomas	√		

Steffan Wiliam	√		
Margaret Wilkinson	√		
Edward Williams	√		
Mark Wilson	√		
Marguerita Wright		√	
TOTAL	28	16	

Cariwyd y Cynnig yn briodol.

PENDERFYNWYD –

- (1) CYMERADWYO'r bwriad i ad-drefnu'r strwythur haen gyntaf ac ail haen, gan gynnwys rolau newydd a'r rhai sydd wedi newid, fel y nodir yn yr adroddiad.
- (2) CYMERADWYO dileu a chreu'r swyddi canlynol yn unol â'r manylion a geir yn yr adroddiad ac fel rhan o'r strwythur arfaethedig fel y nodir isod:
 - (a) Dileu'r swydd Rheolwr Gyfarwyddwr;
 - (b) Creu swydd Prif Weithredwr;
 - (c) Creu swydd Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol; a
 - (ch) Creu swydd Cyfarwyddwr Lle.
- (3) NODI'r broses ymgynghori a'r amserlen weithredu arfaethedig

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Galluogi'r Cyngor i ystyried canfyddiadau'r adolygiad a'r achos busnes sylfaenol ar gyfer y newidiadau strwythurol a argymhellir yn llawn.
- (2) Cytuno ar gynigion ffurfiol ar gyfer newid sefydliadol i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol.
- (3) Galluogi'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol i ddechrau paratoi ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol â staff ar y newidiadau arfaethedig, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor.